Oriau gwaith a ganiateir ar gyfer plant a gaiff eu cyflogi

Plant 13 ac 14 oed

Amser Tymor:

- uchafswm o 12 awr yr wythnos
- uchafswm o 2 awr ar unrhyw ddiwrnod gwaith
    - 1 awr rhwng 7am a 8.30am, AC 1 awr rhwng diwedd y diwrnod ysgol a 7pm
    - NEU 2 awr rhwng diwedd y diwrnod ysgol a 7pm
- Dydd Sadwrn – uchafswm o 5 awr
- Dydd Sul – uchafswm o 2 awr

Gwyliau:

- uchafswm o 25 awr yr wythnos
- 5 awr mewn unrhyw ddiwrnod rhwng 7am a 7pm gyda seibiant
- Dydd Sul – uchafswm o 2 awr

Rhaid i blant gael seibiant am o leiaf 1 awr am bob 4 awr a weithir
Rhaid i blant gael pythefnos o wyliau bob blwyddyn.

Plant 15 ac 16 oed

Amser tymor:

- uchafswm o 12 awr yr wythnos
- uchafswm o 2 awr ar unrhyw ddiwrnod ysgol
    - 1 awr rhwng 7am a 8.30am, AC 1 awr rhwng diwedd y diwrnod ysgol a 7pm
    - NEU 2 awr rhwng diwedd y diwrnod ysgol a 7pm
- Dydd Sadwrn – uchafswm o 8 awr
- Dydd Sul – uchafswm o 2 awr

Gwyliau:

- uchafswm o 35 awr yr wythnos
- 8 awr mewn unrhyw ddiwrnod rhwng 7am a 7pm gyda seibiant
- Dydd Sul – uchafswm o 2 awr

Rhaid i blant gael seibiant am o leiaf 1 awr am bob 4 awr a weithir
Rhaid i blant gael pythefnos o wyliau bob blwyddyn.

Mathau o waith a ganiateir ar gyfer plant a gaiff eu cyflogi

13 oed

Caiff plant eu cyflogi mewn 'gwaith ysgafn' mewn:

- gwaith amaethyddol neu arddwriaethol
- dosbarthu papurau newydd, cylchgronau neu ddeunydd printiedig arall
- gwaith siop, gan gynnwys llenwi silffoedd
- trin gwallt
- gwaith swyddfa
- golchi ceir â llaw mewn lleoliad preswyl
- mewn caffi neu fwyty
- mewn stablau marchogaeth
- gwaith domestig mewn gwestai a sefydliadau eraill sy'n cynnig llety

14 ac 15 oed

- gellir eu cyflogi ar gyfer gwaith ysgafn yn unig
- gallant gymryd rhan mewn masnachu ar y stryd os cânt eu cyflogi gan eu rhiant mewn cysylltiad â'u busnes ac os cânt eu goruchwylio ganddynt, neu os ydynt wedi cael trwydded masnachwr stryd gan yr awdurdod lleol

16 oed

Bydd y cyfyngiadau uchod yn dal i fod yn berthnasol tra bo'r plentyn o oedran ysgol gorfodol. Mae oedran ysgol gorfodol yn parhau tan y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd pan fydd y plentyn yn 16 oed.

Cyflogaeth a Waherddir

Mae'n anghyfreithlon cyflogi plant i weithio yn y canlynol:

- mewn sinema, theatr, disgo, neuadd ddawnsio, clwb nos (oni bai eu bod yn perfformio a bod ganddynt Drwydded Perfformio)
- gwerthu neu ddosbarthu alcohol, oni bai ei fod mewn cynwysyddion wedi'u selio
- dosbarthu llefrith
- dosbarthu olew tanwydd
- mewn cegin fasnachol
- casglu neu ddidoli gwastraff
- unrhyw waith mwy na 3 metr uwch ben y ddaear / lefel y llawr
- bod yn agored i gyfryngau ffisegol, biolegol neu gemegol niweidiol
- casglu arian neu werthu neu ganfasio o ddrws i ddrws
- masnachu ar y stryd oni bai eu bod dros 14 oed ac yn cael eu cyflogi gan eu rhieni, neu eu bod wedi gwneud cais am drwydded masnachwr stryd eu hunain ac wedi'i chael
- gwaith sy'n cynnwys bod yn agored i ddeunydd i oedolion, neu mewn sefyllfaoedd sy'n anaddas i blant
- gwerthu dros y ffôn
- mewn lladd-dy, unrhyw ran o siop cigydd neu eiddo arall sy'n gysylltiedig â lladd anifeiliaid, bwtsiera neu baratoi carcasau neu gig i'w werthu
- fel gweinydd neu gynorthwyydd mewn ffair neu unrhyw fath o arcêd difyrrwch
- mewn clwb neu unrhyw le arall sydd â thrwydded ar gyfer gamblo
- rhoi gofal personol i breswylwyr mewn unrhyw gartref gofal preswyl neu gartref nyrsio
- glanhau unrhyw beiriannau, os byddai hyn yn golygu eu bod yn agored i risg neu niwed
- mewn unrhyw weithgaredd neu gamp sy'n cynnwys arfau tanio (gan gynnwys pledu paent) neu mewn cysylltiad â hwy, oni bai bod oedolyn yn eu goruchwylio'n agos bob amser
- mewn unrhyw waith diwydiannol gan gynnwys mwyngloddiau a chwareli, diwydiant gweithgynhyrchu, adeiladu a chludo teithwyr neu nwyddau ar ffordd, rheilffordd neu ddyfrffordd fewndirol